Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar Nos Fercher y 24ain o Awst 2011 am 7.00yh.

Presennol: Y Maer, y Cyng. Julia Jones, y Dirprwy Faer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. David Williams
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Charlotte Leadbeater

Cof 137/ Awst /11 I drafod y weithdrefn ar gyfer ymgynghori â thrigolion Llandeilo mewn perthynas â Chais Cynllunio Sainsbury's

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r gost amcanol o baratoi ac anfon llythyrau i'r holl drigolion, yn gofyn am eu barnau ar y datblygiad a gynigwyd gan Sainsbury's.
Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus a fyddai'n agored i holl drigolion y Dref. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Sainsbury's, i wahodd y cwmni i roi cyflwyniad wedi iddynt gyflwyno eu cais cynllunio. Cytunwyd ar ddyddiad dros dro, sef y 5ed o Hydref 2011, gan ddibynnu ar argaeledd y Neuadd Ddinesig a ph'un ai byddai Sainsbury's yn medru mynychu.
Roedd pawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15yh.